

Mae'r Pab Ffransis wedi penodi'r Esgob Mark O'Toole yn Archesgob etholedig Caerdydd ac yn Esgob Etholedig Mynyw.

Mae'r Esgob Mark O'Toole wedi bod yn Esgob Plymouth ers ei benodi yn 2013. Cyn hynny, fe'i hordeiniwyd yn offeiriad i Archesgobaeth San Steffan yn 1990 a gweinyddodd fel ysgrifennydd preifat i'r Cardinal Cormac Murphy-O'Connor rhwng 2002-2008, cyn ei penodiad yn rheithor seminari Allen Hall yn 2008.

Bydd yr Archesgob-ethol O'Toole yn dod yn wythfed archesgob Caerdydd yn olynol i'r Archesgob George Stack, sydd wedi bod yn Archesgob Caerdydd ers 2011. Cynhelir y gosodiad yn Eglwys Gadeiriol Caerdydd ar 20 Mehefin, sef diwrnod gŵyl y merthyron Cymreig Saint Julius ac Aaron.

Wrth glywed am ei benodiad, dywedodd yr Archesgob-ethol O'Toole,

"Rwy'n ddiolchgar ac yn ostyngedig gan yr ymddiriedaeth y mae'r Tad Sanctaidd wedi'i gosod yndda i. Rwy'n wynebu'r dasg sydd o'm blaen gyda chyffro a dychryn arbennig, yn ymwybodol o fy ngwendidau fy hun. Ar hyd fy mywyd rwyf wedi dysgu ymddiried yn ddyfnach yn ewyllys yr Arglwydd, ac yn y dyddiau hyn o'r Pasg yn enwedig, yr wyf wedi cymryd llawer o gysur o eiriau Iesu at ei Apostolion cyntaf, "Peidiwch ag ofni. Rwy'n mynd o'ch blaen chi ..." Gyda'r synnwyr dwfn hwn bod yr Arglwydd yn mynd o flaen pob un ohonom yn y genhadaeth newydd hon, yr wyf yn gofleidio'n llwyr yr alwad newydd hon yn fy mywyd."

"Mynegaf fy niolch o galon i bawb yn Esgobaeth Plymouth. Rydych chi wedi dysgu i mi beth yw bod yn esgob. Gadawaf gyda llawer o atgofion hapus, a chyda thristwch hefyd, wrth ffarwelio â ffrindiau da. Diolch am y cariad rydych chi wedi'i ddangos i mi dros yr wyth mlynedd diwethaf. Mae'n fy nghryfhau wrth i mi wynebu'r cyfle newydd hwn, ac rwy'n siŵr y byddwch yn gweddïo drosof.

"Rwy'n gwybod, hefyd, y gallaf gyfrif ar gydweithrediad a gweddi Offeiriaid, Diaconiaid, Pobl Gysegredig, a Ffyddloniaid Lleyg yr Archesgobaeth Caerdydd ac Esgobaeth Mynyw. Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi i gyd ac, ymhen amser, i ni ddod i adnabod ein gilydd. Rwyf wrth fy modd y bydd yr Archesgob George yn aros yn yr ardal, a gwn y gallaf ddibynnu ar ei gefnogaeth a'i gyngor doeth. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chyd-Gristnogion, gyda phobl o grefyddau eraill, a gyda pawb o ewyllys da, er lles pawb yn ein cymunedau lleol.

"Mae Cymru a Swydd Henffordd yn diriogaeth newydd i mi, a rwyf wedi ymweld ar gyfer gwyliau ac encilion yn unig. Rwy'n cael fy nharo gan hanes cyfoethog a daearyddiaeth ddramatig y ddwy esgobaeth, gyda'u dinasoedd aml-ddiwylliannol bywiog, eu cymoedd gwledig, a'u harfordir hardd, eu harloesedd technolegol amaethyddol a modern ac amrywiol. Rwy'n ddiolchgar am y gwreiddiau rydyn ni'n eu rhannu yn ein diwylliant Celtaidd cyfoethog. Rwy'n gobeithio ei fod yn rhoi rhyw deimlad o berthynas i ni â'n gilydd. Dwi'n gwybod beth mae'n ei olygu i gael eich dadwreiddio, i wneud cartref mewn gwlad newydd a gwahanol, a bydd yn dda dod i adnabod ein brodyr a chwirydd mudol. Edrychaf ymlaen, hefyd, at drwytho fy hun yn realiti hanesyddol a phrofiad amrywiol y ddwy Esgobaeth, wrth inni

gydweithio'n agosach. Rwy'n cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser. Fel y dywed un o'n diarhebion Cymraeg, "Rhaid cropian cyn cerdded".

"Mae gen i lawer i'w ddysgu ac rwy'n gwybod y gallaf ddibynnu ar eich amynedd a'ch dealltwriaeth. Rwy'n gofyn yn arbennig am eich gweddïau. Pan ddes i'n esgob yn gyntaf, dewisais yr arwyddair, "I'th ddwylo, Arglwydd". Mae'n weddi yr wyf wedi cael achos i'w wneud lawer gwaith yn ystod y dyddiau diwethaf. Mae'n weddi yr wyf yn gofyn i bawb yng Nghaerdydd a Mynyw ei gwneud gyda'n gilydd heddiw, ac yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Oherwydd yn yr Arglwydd, fel Ei ddisgyblion cenhadol, y cawn ein hunaniaeth ddyfnaf. Amdano Ef yr ydym yn mynd allan o'r newydd, i ddyfnhau ein cariad tuag ato Ef, ac i ddwyn eraill ato Ef. Yr wyf yn cymeradwyo fy hun, a phawb ohonom, i Mair, Ymddygwyd Heb Bechod, wrth iddi oleuo'r ffordd i ni at Ei Mab; gofynnwn hefyd eiriolaeth Sant Joseff, Dewi Sant, a'n holl nawddsant lleol, wrth wneud y bererindod newydd hon gyda'n gilydd."

Dywedodd yr Archesgob George Stack,

"Rwy'n croesawu'n fawr penodiad yr Archesgob-ethol Mark O'Toole i fod yn wythfed Archesgob Caerdydd ac yn bedwerydd Esgob Mynyw *'in persona Episcopi'*. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i gwneud gan y Sanctaidd gan gynnal hunaniaeth, realiti cyfreithol, hanes a bywyd bugeiliol pob esgobaeth."

"Bydd yr Archesgob-ethol Mark O'Toole yn dod ag anrhegion gwych i'r weinidogaeth newydd hon. Bydd pobloedd pob esgobaeth yn cael eu bendithio gan ei brofiad fel Esgob Plymouth. Bydd ei sgiliau bugeiliol, diwinyddol a gweinyddol o fudd aruthrol i ni gyd. Mae ei gyfrifoldebau cenedlaethol fel Cadeirydd yr Adran Efengylu a Disgyblaeth yng Nghynhadledd Esgobion Cymru a Lloegr wedi'u cydnabod gan yr Esgobaeth Sanctaidd yn ei aelod o'r Cyngor Rhyngwladol dros Gateceis. Bydd ei etifeddiaeth Geltaidd yn atseinio gyda'r ffyddloniaid Catholig yng Nghymru ac yng nghymuned ehangach ei gartref newydd." *Ad multos annos!*

Dywedodd Cardinal Vincent Nichols.

"Croesewir y newyddion heddiw am benodiad yr Esgob Mark O'Toole yn Archesgob Metropolitan Caerdydd ac Esgob Mynyw, *in persona Episcopi*. Rwy'n cynnig fy nghefnogaeth lawn a'm gweddïau taer i'r Esgob Mark wrth iddo baratoi i ymgymryd â'r rôl newydd hon. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gymuned Gatholig ledled Cymru yn ei groesawu'n gynnes, ac felly hefyd arweinwyr eglwysi eraill yno a rhai'r gymdeithas ddinesig. Dewi Sant a holl saint Cymru, gweddiwch drosto.

